Gwasanaethau Refeniw – Hysbysiad Prosesu Teg

O fis Mai 2018, mae deddfwriaeth newydd yn ei gwneud yn ofynnol i ni roi hysbysiad i'n holl gwsmeriaid ynghylch pam a sut y byddwn yn defnyddio a chadw eich data personol. **Nod yr hysbysiad hwn yw cydymffurfio â'r gofyn cyfreithiol hwn ac mae er gwybodaeth yn unig.**

1. Pam rydym yn casglu ac yn cadw gwybodaeth bersonol?
Rydym yn casglu ac yn defnyddio'ch gwybodaeth bersonol at ddibenion cofrestru am y dreth gyngor, dyfarnu unrhyw ostyngiad, eithriad a rhyddhad i'r anabl, ac adfer unrhyw dreth gyngor sydd heb ei thalu.

Mae'r gwaith o brosesu eich data yn angenrheidiol ar gyfer perfformiad tasg gyhoeddus ac o fudd sylweddol i'r cyhoedd, yn unol â'r ddeddfwriaeth ganlynol, Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (fel y'i diwygiwyd).

Mae rhai mathau o ddata personol yn fwy sensitif nag eraill, ac mae angen iddynt gael eu diogelu'n fwy. Dosberthir hwn fel 'data categori arbennig' a gallai gynnwys gwybodaeth am eich tarddiad hiliol neu ethnig, barn wleidyddol, credoau crefyddol neu athronyddol neu aelodaeth undeb llafur, a phrosesu data genetig neu fiometrig, iechyd a bywyd rhywiol, a chyfeiriadedd rhywiol.

Yn eich achos chi, mae'n bosib y byddwn yn casglu data categori arbennig mewn perthynas â'ch iechyd ar gyfer dyrannu eithriad, gostyngiad neu ryddhad ar eich cyfrif treth gyngor. Rydym yn prosesu'r math hwn o ddata categori arbennig gan ei fod yn angenrheidiol am y rhesymau o fudd sylweddol i'r cyhoedd i'w wneud. Rydym ond yn casglu eich data iechyd i sicrhau yr ydym yn cydymffurfio â'n goblygiadau mewn perthynas â'r ddeddfwriaeth a nodir uchod.

2. Sut caiff gwybodaeth amdanoch ei defnyddio.
Caiff y wybodaeth rydych yn ei darparu ei phrosesu yn unol â Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2016 a Deddf Diogelu Data 2018. Mae gennym ddyletswydd i ddiogelu'r cronfeydd cyhoeddus yr ydym yn eu rhoi a gallwn ddefnyddio'r wybodaeth a ddarperir gennych, ynghyd â thechnegau paru data, i ganfod neu atal twyll ac am unrhyw faterion mewn perthynas â thenantiaeth. Byddwn yn croeswirio'r wybodaeth gydag adrannau eraill y cyngor, cynghorau eraill, ac Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Caiff yr wybodaeth bersonol rydym wedi'i chasglu ei rhannu gydag asiantaethau atal twyll, a fydd yn ei defnyddio i atal twyll a gwyngalchu arian ac er mwyn dilysu eich hunaniaeth. Os caiff twyll ei ganfod, gallai gwasanaethau penodol, cyllid neu gyflogaeth gael eu gwrthod i chi. Gallwch weld rhagor o fanylion am sut y caiff eich gwybodaeth ei defnyddio gennym a'r asiantaethau atal twyll hyn, a'ch hawliau diogelu data, yma: https://www.cifas.org.uk/fpn

Byddwn hefyd yn gwneud unrhyw ddatgeliadau y mae eu hangen yn ôl y gyfraith, a gallwn hefyd rannu'r wybodaeth hon â chyrff eraill sy'n gyfrifol am ganfod/atal twyll neu archwilio/gweinyddu cyllid cyhoeddus i sicrhau bod arian yn cael ei dargedu a'i wario yn y ffordd fwyaf priodol a darbodus. Er mwyn cyflawni hyn, mae'n bosibl y caiff gwybodaeth ei rhannu gyda'r Swyddfa Ystadegau Gwladol, Asiantaeth y Swyddfa Brisio ac adrannau mewnol eraill megis yr adran Gwasanaethau Amgylcheddol, yr adran Tai, yr adran Gwasanaethau Etholiadol a'n hadran Gyfreithiol.

Ni fyddwn yn gwneud unrhyw ddatgeliadau i drydydd partïon at ddibenion marchnata.

Bydd eich data'n ddiogel ac yn gyfrinachol ar bob adeg a byddwn yn casglu'r wybodaeth bersonol sydd ei hangen er mwyn asesu eich hawl i fudd-dal tai a/neu ostyngiadau treth gyngor, eich cofrestru am y dreth gyngor ac ardrethi busnes, ac mewn perthynas â gostyngiadau, eithriadau, rhyddhad ac adfer.

3. Pa mor hir ydym yn cadw eich gwybodaeth?
Byddwn yn cadw'r wybodaeth a ddarperir inni am chwe blynedd ac un ychwanegol, sef y flwyddyn ariannol gyfredol, a byddwn yn gwaredu eich gwybodaeth yn ddiogel pan nad oes ei hangen mwyach.

4. Mynediad at fy ngwybodaeth bersonol?
Gallwch weld a oes gennym unrhyw wybodaeth bersonol amdanoch drwy wneud cais mynediad at wybodaeth o dan Reoliadau Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2016 a Deddf Diogelu Data 2018. I wneud cais am unrhyw wybodaeth bersonol sydd gennym, bydd angen i chi gysylltu â'r tîm a ddarperir eu manylion isod:

Tîm Mynediad at Gofnodion, Cyngor Sir Penfro, Neuadd y Sir, Hwlffordd, SA61 1TP
E-bost: accesstorecords@pembrokeshire.gov.uk. Ffôn: 01437 775798

5. Eich hawliau.
Dan Reoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2016 a Deddf Diogelu Data 2018, mae gennych hawliau fel unigolyn y gallwch eu harfer mewn perthynas â'r wybodaeth sydd gennym amdanoch.

- Yr hawl i **fynediad** – mae gennych hawl i ofyn am fynediad a chopi o'r wybodaeth sydd gennym amdanoch chi.
- Yr hawl i **gywiro** – mae gennych yr hawl i ofyn i'ch gwybodaeth gael ei chywiro.
- Gall yr hawl i **gyfyngu** ar brosesu fod yn gymwys – gallwch ofyn i ni atal prosesu eich data personol mewn perthynas ag unrhyw wasanaeth y cyngor. Gallai hyn oedi neu ein hatal rhag cyflenwi gwasanaeth i chi. Byddwn yn ceisio cydymffurfio â'ch cais ond efallai y bydd angen cadw neu brosesu gwybodaeth i gydymffurfio â'n dyletswyddau cyfreithiol.
- Yr hawl i **wrthwynebu** – nid yw hon yn hawl ddiamod a bydd yn dibynnu ar y sylfaen gyfreithiol dros brosesu eich gwybodaeth bersonol.

6. Cwynion neu ymholiadau.
Mae Cyngor Sir Penfro yn ceisio bodloni'r safonau uchaf posib wrth gasglu a defnyddio gwybodaeth bersonol. Oherwydd hyn, rydym yn cymryd unrhyw gwynion a dderbyniwn ynglŷn â hyn o ddifrif. Rydym yn annog pobl i roi gwybod i ni os ydyn nhw'n credu bod y ffordd rydyn ni'n casglu gwybodaeth neu yn ei defnyddio yn annheg, yn gamarweiniol neu'n amhriodol. Rydym hefyd yn croesawu unrhyw awgrymiadau ar gyfer gwella ein gweithdrefnau.

Nid yw'r hysbysiad hwn yn rhoi manylion cynhwysfawr o'r holl agweddau ar sut rydym yn casglu a defnyddio gwybodaeth bersonol. Fodd bynnag, byddwn yn darparu unrhyw wybodaeth neu esboniad ychwanegol sydd ei angen. Dylai unrhyw geisiadau am hyn gael eu hanfon at yr unigolyn yn y cyfeiriad isod:-

Swyddog Diogelu Data, Joanne Hendy
Cyngor Sir Penfro, Neuadd y Sir, Hwlffordd, SA61 1TP
E-bost: dataprotection@pembrokeshire.gov.uk. Ffôn: 01437 764551

Os ydych am wneud cwyn am y ffordd yr ydym wedi prosesu eich data personol, gallwch gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth fel y corff statudol sy'n goruchwylio'r gyfraith ynglŷn â diogelu data. Cyswllt Cwsmeriaid, Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, SK9 5AF. E-bost: casework@ico.org.uk Rhif ffôn: 0303 123 1113

7. Newidiadau i'r hysbysiad prosesu teg hwn.

Rydym yn adolygu ein hysbysiadau yn rheolaidd.